# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0475(ESH) a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ar 17 Gorffennaf 2008

**At Darren Millar:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Gorffennaf, addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio manylion y cyllid a ddarperir ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoli perygl llifogydd.

Ym 1999, pan sefydlwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd cyfanswm y gyllideb grantiau cyfalaf er mwyn gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd a chynlluniau amddiffyn yr arfordir ychydig yn llai na £6 miliwn. Roedd y rhan fwyaf o'r cyllid hwn yn cael ei ddyrannu naill ai i'r awdurdodau lleol neu i Asiantaeth yr Amgylchedd ac fe'i defnyddiwyd i wella amddiffynfeydd rhag llifogydd a chynlluniau amddiffyn yr arfordir. Eleni, mae'r gyllideb sydd gennym ar gyfer gwaith o'r fath dros £18 miliwn. Mae hwn yn gynnydd sylweddol. Hyd yn oed o ystyried chwyddiant yn ystod yr un cyfnod, mae'r cynnydd hwn yn golygu bod bron ddwywaith cymaint o gyllid yn cael ei ddarparu mewn termau real.

Ers 2002, mae cyllideb flynyddol yr Awdurdodau Lleol ar gyfer gwelliannau i amddiffynfeydd rhag llifogydd ac i gynlluniau amddiffyn yr arfordir wedi cynyddu o £3.8m i £5.8m, sy'n gynnydd o 53%.

Yn ogystal â buddsoddi mewn gwella amddiffynfeydd, mae'r awdurdodau lleol yn cyfeirio hefyd at gynnydd yn eu gwariant refeniw ar reoli perygl llifogydd a rheoli perygl i'r arfordir. Y llynedd, gwariodd yr awdurdodau lleol £4.2 miliwn ar gynnal a chadw a rheoli systemau amddiffyn, gan wneud hynny gyda chymorth grant cymorth refeniw Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n oddeutu 80% o gyllideb awdurdod lleol.

Mae cyllid cyfalaf Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd wedi codi o £3.2m yn 2002 i £12.5m yn 2008, sef cynnydd o 290%. Mae hwn yn gynnydd sylweddol sy'n galluogi Asiantaeth yr Amgylchedd i amddiffyn nifer o gymunedau ar hyd prif afonydd Cymru.

Ers 2005, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi bod yn ariannu'r agweddau refeniw ar weithgareddau rheoli perygl llifogydd yr Asiantaeth. Mae'r cyllid hwn wedi codi o £13.5 miliwn yn 2005 i £16.7m yn y flwyddyn gyfredol, sef cynnydd o 23%. Mae'n cynnwys cyllid er mwyn clirio prif afonydd, cynnal a chadw amddiffynfeydd rhag llifogydd, rhybuddio am lifogydd, rhoi cyngor technegol ac ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth.

O'i chymharu â darpariaeth y llynedd, rwyf wedi darparu £2.3m yn ychwanegol eleni ar gyfer rheoli perygl llifogydd a pherygl i'r arfordir. Ar hyn o bryd, mae Pwyllgor Cabinet Llywodraeth y Cynulliad ar Fuddsoddiad Cyfalaf Strategol wrthi'n ystyried prosiectau posibl er mwyn symud y rhaglen rheoli perygl llifogydd yn ei blaen.

Rwyf hefyd yn awyddus i ddod o hyd i ffynonellau eraill o arian ac rwyf wedi gofyn i'm swyddogion baratoi cais strategol am arian ychwanegol o dan Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Rwy'n falch o fedru dweud bod y gwaith o baratoi Achos Busnes ar gyfer y cais hwn yn mynd rhagddo'n dda. Os bydd y cais yn llwyddiannus, gallai olygu y bydd 30% yn fwy o gyllid cyfalaf ar gael yn ystod y pum neu chwe blynedd nesaf.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ymdrechion sylweddol i sicrhau bod digon o gyllid ar gael er mwyn i'r awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd fedru mynd ati i'r

graddau mwyaf posibl i ddiogelu ein cymunedau a'n harfordiroedd rhag llifogydd. Rydym yn parhau i edrych ar yr holl gyfleoedd posibl i sicrhau mwy o gyllid ar gyfer rheoli perygl llifogydd, gan fod hwn yn fater mor hanfodol o ran cydnerthu Cymru. Mae'r hyn yr wyf wedi'i amlinellu yn y llythyr hwn yn dangos yn glir bod cynnydd cyson yn yr arian a ddarperir ar gyfer rheoli perygl llifogydd a pherygl i'r arfordir, ac rwy'n ffyddiog y bydd hyn yn parhau.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth yr wyf wedi'i darparu yn eich argyhoeddi na fydd unrhyw doriadau mewn termau real yn ystod y tair blynedd nesaf i'r cyllidebau ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at holl Aelodau'r Cynulliad er gwybodaeth iddynt.